






Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Gell Cyngor Technegol

Crynodeb o'r cyngor

24 Gorffennaf 2020



Y Gell Cyngor Technegol: Crynodeb

24 Gorffennaf 2020


Crynodeb o'r prif bwyntiau

- Mae'r amcangyfrifon ynghylch y gyfradd twf yn awgrymu bod heintiadau COVID-19 yng Nghymru yn gostwng tua 3-5% y dydd.

Y gyfradd twf

- Mae pum model i'w cael ar hyn o bryd sy'n amcangyfrif y cyfraddau twf yng Nghymru. Caiff canlyniadau'r modelau hyn eu cyfuno gan ddefnyddio pwysoliadau cyfartal er mwyn darparu'r amcangyfrif canolog cyffredinol o'r gyfradd twf. Mae Ffigur 1 yn dangos yr amcangyfrifon o'r cyfraddau twf diweddaraf ar gyfer Cymru, gan gynnwys y model cyfun. Mae'r gyfradd twf yn -0.04 ar hyn o bryd (cyfyngau hyder 90% o -0.05 i -0.03) sy'n golygu yr amcangyfrif ar hyn o bryd bod heintiau yn lleihau tua 4% y dydd.

Ffigur 1: Yr amcangyfrifon cyffredol ar gyfer y gyfradd twf yng Nghymru – gyda chyfyngau hyder 90%, ynghyd â'r model cyfun yn seiliedig ar bwysoliadau cyfartal




Allwedd

● Cases
 ● Deaths
 ● Multiple
 ● Survey
 ● Combined

Y gyfradd atgynhyrchu

- Yr amcangyfrif diweddaraf o'r rhif atgynhyrchu R_t ar gyfer Cymru gan y Grŵp Cyngori Gwyddonol ar Argyfyngau (SAGE) yw rhwng 0.60 a 0.90 gydag amcangyfrif canolog o 0.75.
- Mae'r amcangyfrif hwn a'r un a luniwyd ar gyfer yr wythnos diwethaf wedi'u seilio ar setiau gwahanol o fodolau, felly nid oes modd cymharu'r ddau yn uniongyrchol. Mae R_t wedi bod yn is nag 1 am o leiaf wyth wythnos, sydd wedi arwain at ostyngiad yn nifer yr achosion a nifer y bobl sydd wedi gorfod cael eu derbyn i'r ysbyty. Os bydd R_t yn aros yn is nag 1, bydd nifer yr achosion yn parhau i ostwng. Wrth i nifer yr achosion ostwng, daw mesurau eraill megis nifer yr achosion newydd ac adroddiadau meddygon teulu yn bwysicach na defnyddio R_t fel y prif ddangosydd.
- Mae Ffigur 2 isod yn dangos yr amcangyfrif dros amser o'r rhif atgynhyrchu effeithiol yng Nghymru. Nid yw'r amcangyfrif hwn wedi'i gynnwys yn amcangyfrif SAGE ond dangosir ef gan fod iddo gyfres amser glir wedi'i seilio ar ddata cyson. Dangosir amcangyfrifon o'r data presennol hyd at 26 Mehefin 2020. Fodd bynnag, mae'r niferoedd wedi bod yn rhy fach i gynhyrchu amcangyfrifon dibynadwy ers Mehefin 22. Dylid ystyried y rhain fel gwybodaeth ddangosol yn unig. Mae'r llinell doredig lorweddol yn dangos y gwerth targed, sef 1, ar gyfer y rhif atgynhyrchu effeithiol sy'n ofynnol i reoli'r haint. Mae'r llinell doredig fertigol yn dangos dyddiad llunio'r adroddiad.

Ffigur 2: R_t yng Nghymru




Ffynhonnell a rhagor o wybodaeth: Amcangyfrifon Cenedlaethol ac Is-genedlaethol ar gyfer y Deyrnas Unedig
<https://epiforecasts.io/covid/posts/national/unitedkingdom/>

Yr Amcangyfrif Presennol o R_t

- Mae tystiolaeth bod amrywiadau bychan mewn R_t rhwng gwahanol wledydd y DU. Fodd bynnag, mae mwy o ansicrwydd yn yr amcangyfrifon ar gyfer yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon, a hynny'n rhannol oherwydd y niferoedd llai o achosion a marwolaethau o'i gymharu â Lloegr.
- Ni fydd unrhyw newidiadau o ran trosglwyddo a allai fod wedi digwydd yn y ddwy i dair wythnos ddiwethaf yn cael eu hadlewyrchu mewn data clinigol eto, nac ychwaith felly yn yr amcangyfrifon cyfredol o R_t .
- Mae tri lleoliad sy'n arbennig o berthnasol i'r sefyllfa bresennol: y gymuned, cartrefi gofal ac ysbytai. Nid yw'r rhain yn annibynnol ar ei gilydd; gall haint gael ei ledaenu o ysbytai i gartrefi gofal, o'r lleoliadau hyn i'r gymuned, ac i'r gwrthwyneb. Ni ellir casglu'r rhain drwy amcangyfrif R_t ar wahân ar gyfer cartrefi gofal ac ysbytai. Nid yw R_t ond yn ystyried trosglwyddiad i eraill pan fydd y feirws wedi cyrraedd poblogaeth benodol. .
- Mae SAGE yn argymhell na ddylai'r sefyllfa mewn lleoliadau penodol gael ei monitro gan ddefnyddio R_t ond yn hytrach drwy edrych sut mae nifer yr achosion a'r marwolaethau yn newid ac, os oes modd, cynnal ymchwiliad epidemiolegol i'r modd y mae'r tri epidemig yn rhyngweithio.
- Er mwyn ystyried yr holl dystiolaeth a dulliau, caiff y canlyniadau o bob model eu cyfuno gan ddefnyddio pwysoliad cyfartal i roi amcangyfrif cyffredinol o R_t yng Nghymru. Dangosir hwn mewn lliw du i'r dde o Ffigur 3 isod.
- Mae'r canlyniadau yn ddienw er mwyn osgoi rhoi blaenoriaeth i un model penodol dros un arall. Dangosir cyfyngau hyder (90%) hefyd. Yr asesiad o'r dystiolaeth hon gan SAGE yw bod R_t yn debygol o fod yn is nag 1 yng Nghymru.

Ffigur 3. Amcangyfrifon cyfredol o R_t yng Nghymru – gyda chyfyngau hyder o 90%, ynghyd â'r model cyfunol yn seiliedig ar bwysoliadau cyfartal



Allwedd

● Cases ● Deaths ● Multiple ● Survey ● Combined

Amser haneru

- Ni ellir llunio amcangyfrifon dibynadwy o'r amseroedd haneru ar hyn o bryd oherwydd niferoedd isel a sefydlog y derbyniadau i'r ysbyty.


Cydymffurfio â'r canllawiau presennol, a symudedd

- Roedd data arolwg [IPSOS MORI](#) yr wythnos diwethaf yn dangos bod llawer o bobl yng Nghymru yn parhau i ddilyn y canllawiau ar gadw pellter cymdeithasol ond bod lleihad pellach yn y nifer sy'n gwneud teithiau hanfodol yn unig.
- Rhwng canol mis Ebrill a dechrau mis Mehefin gwelwyd cynnydd graddol mewn teithio. Yn ystod gweddill mis Mehefin, roedd y cynnydd yn llai ar y cyfan, ond bu cynnydd mawr ers dechrau mis Gorffennaf.
- Ganol mis Ebrill roedd teithio gan [ddefnyddwyr Facebook](#) yng Nghymru 50% yn is na'r llinell sylfaen - mae hyn tua 11% ac mae wedi cynyddu'n gyflym ers dechrau mis Gorffennaf, pan oedd tua 24%.
- Mae [data Apple](#) sy'n dangos ceisiadau am gyfarwyddiadau gyrru yng Nghymru wedi cynyddu'n sylweddol ers dechrau mis Gorffennaf ac maent ar eu huchaf yn awr ers i'r data ddechrau ym mis Ionawr. Mae [data symudedd Google](#) yn

dangos cynnydd ar draws pob categori – yn enwedig parciau, archfarchnadoedd a fferyllfeydd, a manwerthu a hamdden.

- Ar ôl y cyfnod o gyfyngiadau symud roedd patrymau teithio yng Nghymru a Lloegr yn weddol debyg. Rhwng canol mis Mai a dechrau mis Mehefin, gwelwyd mwy o gynnydd mewn teithio yng Lloegr nag yng Nghymru, ac roedd y patrwm yn yr Alban yn debyg i'r un yng Nghymru. Yn ystod y pythefnos diwethaf, bu mwy o gynnydd yng Nghymru nag yn unrhyw un o'r gwledydd eraill, ar draws y data symudedd.
- Mae Ffigur 4 isod yn dangos y newid o ran teithio yng Nghymru gan ddefnyddio data symudedd Google. Mae'r ffigurau yn seiliedig ar gyfartaledd yr awdurdodau lleol hynny sydd â data. Y llinell sylfaen yw'r gwerth canolrifol, ar gyfer y diwrnod cyfatebol o'r wythnos, yn ystod y cyfnod 5 wythnos o 3 Ionawr i 6 Chwefror 2020.

Ffigur 4: Newid mewn teithio yng Nghymru



Ymchwil

- Mae 4513 o gleifion o Gymru wedi'u recriwtio i astudiaethau iechyd y cyhoedd brys COVID-19 ar hyn o bryd, sy'n gynydd o 106 yn y saith diwrnod diwethaf.
- Mae Cynllun 'Caniatâd i Gysylltu' y Brechlyn COVID-19 bellach wedi cael ei lansio ledled y DU - <https://www.nhs.uk/sign-up-to-be-contacted-for-research>

- Bwriad y cynllun yw creu cofrestr o unigolion sydd wedi cytuno y gellir cysylltu a nhw, os bydd angen, i gymryd rhan mewn treialon ar frechlynnau COVID-19 ac astudiaethau ymchwil eraill â blaenoriaeth uchel.

Dadansoddiad o frigiad o achosion mewn cartrefi gofal ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

- Credir mai'r ddwy brif ffynhonnell o haint ar gyfer achosion mewn cartrefi gofal yw haint ymhlith staff (a gaffaelwyd yn y gymuned), neu o ryddhau cleifion o'r ysbyty. Mae gwaith a wnaed gan Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi ceisio pennu a oedd cartrefi gofal i oedolion a roddodd wybod am achosion o COVID-19 yn fwy tebygol o fod wedi derbyn cleifion a gafodd eu rhyddhau o'r ysbyty yn y 14 diwrnod cyn i'r achosion o'r haint ddod i'r amlwg.
- Dadansoddwyd data o achosion o ryddhau cleifion o'r ysbyty gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ac o achosion o'r feirws mewn cartrefi gofal y rhoddwyd gwybod amdanynt i Iechyd Cyhoeddus Cymru. Cymharwyd y risg o achosion mewn cyfnodau yn dilyn rhyddhau claf â'r risg mewn cyfnodau eraill. Diffiniwyd brigiad o achosion fel un canlyniad labordy positif o haint COVID-19. Mae'r niferoedd a gynhwysir yn yr astudiaeth yn fach, gyda 62 o achosion ymhlith 170 o gartrefi gofal.
- Mae'r canfyddiadau cychwynnol yn dangos y bu cynnydd yn y risg o achosion ar ôl i gleifion gael eu rhyddhau - gyda 1.18 o achosion fesul 100 o ddiwrnodau o ddilyn i fyny yn y rhai a gafodd eu rhyddhau i gartref gofal, o'i gymharu â 0.34 fesul 100 diwrnod yn y rhai hynny na chawsant eu rhyddhau i gartref gofal. Fodd bynnag, wrth addasu ar gyfer maint y cartref a'r math o breswlydd a'r gofal a ddarparwyd, nid oedd yr effaith hon yn parhau - nid oedd cynnydd yn nifer yr achosion o'r clefyd yn dilyn rhyddhau cleifion o'i gymharu â dim rhyddhau.
- Felly, gall maint cartrefi gofal a'r math o ofal a ddarperir fod yn ystyriaethau pwysig. Roedd achosion yn fwy tebygol mewn cartrefi mwy, a'r rhai â darpariaeth nyrsio a gofal dementia arbenigol
- Mae cynlluniau ar y gweill i gynnal dadansoddiad pellach o ddata ar ryddhau cleifion a data am achosion ledled Cymru, ac addasu ar gyfer mynychder achosion o COVID-19 dros amser. Bydd canlyniadau'r papur hwn yn cael eu cyflwyno i'w cyhoeddi ar gyfer adolygiad gan gymheiriaid maes o law.
- Mae canfyddiadau'r astudiaeth hon yn gyson â gwaith diweddar arall - canfu dadansoddiad gan Brifysgol Caeredin hefyd fod mwy o risg o achosion mewn cartrefi gofal mwy; a chanfu astudiaeth ar wahân gan Norfolk fod canfyddiadau o COVID-19 mewn cartrefi gofal yn gysylltiedig â chynnydd mewn staff nad oeddent yn staff gofal.

<https://www.medrxiv.org/content/10.1101/2020.07.09.20149583v1>

<https://www.medrxiv.org/content/10.1101/2020.06.17.20133629v1.full.pdf>

Papur SPI-B ar Negeseuon Iechyd y Cyhoedd ar gyfer cymunedau o Gefndiroedd Diwylliannol Gwahanol

- Mae COVID-19 yn cael effaith anghymesur ar bobl o gymunedau Pobl Dduon ac Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME). Gall cyfathrebu risg sy'n ddiwylliannol briodol hybu ymddygiadau diogelu iechyd a all leihau'r risg o COVID-19 mewn cymunedau BAME
- Mae cyfieithu i ystod o ieithoedd addas yn angenrheidiol, ond nid yw'n ddigonol. Mae cydgynhyrchu a rhagbrofi negeseuon iechyd gyda'r gymuned darged i nodi iaith sy'n cadw ystyr y neges graidd ac sy'n ystyried cyd-destun diwylliannol y gynulleidfa darged yn hanfodol. Os yw sgiliau darllen yn gyfyngedig, ystyriwch ddefnyddio ffeiliau sain ac animeiddiadau.
- Mae ar yr awdurdodau lleol angen cell weithredol i ymgysylltu â BAME gyda chynrychiolwyr iechyd, gwleidyddol, cymunedol, cyfreithiol ac academaidd. Bydd hyn yn eu helpu i ddeall materion ar lefel leol ac yn meithrin ymddiriedaeth gyda phartneriaid yn y gymuned a all fod yn ffynhonnell gyfathrebu y gellir ymddiried ynddi.
- Dylai negeseuon gael eu teilwra i adlewyrchu'r realiti lleol. Dylai negeseuon iechyd ystyried yn benodol sawl norm diwylliannol gan gynnwys digwyddiadau risg uchel (e.e. "Eid" a phriodasau), sicrhau eu bod yn hyrwyddo gwasanaethau sy'n hygyrch (e.e. swyddogion amlieithog olrhain cysylltiadau) ac nad ydynt yn rhoi'r gymuned darged o dan anfantais (e.e. colli incwm oherwydd hunanynysu).
- Dylai negeseuon iechyd fod yn gysylltiedig â hunaniaethau cymdeithasol heblaw rhai Gwyn a dosbarth canol, gan danlinellu'r risgiau i grwpiau penodol, a chynnwys straeon o'r gymuned leol o ganlyniadau dilyn a pheidio â dilyn y canllawiau.
- Dylid osgoi negeseuon sy'n codi ofn ar bobl oherwydd y bydd straeinachoswyr, hyd yn oed pan lynir wrth negeseuon iechyd, yn parhau yn yr amgylchedd ffisegol nad ydynt o fewn rheolaeth unigolion o gymunedau BAME.

Crynodeb gwyliadwriaeth ac epidemiolegol wythnosol COVID-19 gan lechyd Cyhoeddus Cymru

- Mae nifer y bobl sy'n cysylltu â gwasanaeth 111 y GIG a nifer y galwadau i Galw lechyd Cymru ar gyfer symptomau sy'n ymwneud â COVID-19 yn isel ac yn sefydlog.
- Gwelwyd brig yn nifer y galwadau am ambiwlans am resymau a allai fod yn gysylltiedig â COVID-19 ym mis Ebrill ond erbyn hyn maent wedi gostwng ac maent yn sefydlog.
- Yn labordai GIG Cymru, mae nifer y canlyniadau positif ar gyfer profion COVID-19 wedi lleihau o bron i 50% i 0.71% ar 22 Gorffennaf, ac mae wedi bod yn sefydlog dros yr wythnosau diwethaf.
- Mae canlyniadau positif wedi lleihau mewn pobl sy'n cael profion yn yr ysbyty ond wedi cynyddu ychydig mewn pobl sy'n cael profion mewn lleoliadau eraill (yn rhannol oherwydd bod mwy o brofi yn digwydd yn gysylltiedig â nifer fach o frigiadau a digwyddiadau lleol sy'n destun ymchwiliad ar hyn o bryd).
- Mae'r nifer sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty ac i unedau gofal dwys yn parhau i ostwng yn gyffredinol.
- Yn y Gogledd a rhannau o gymoedd y De y bu'r prif weithgarwch o hyd, ond mae'r dangosyddion gwyliadwriaeth yn parhau i ostwng.
- Ym Mwrdd lechyd Betsi Cadwaladr y mae'r nifer canolrifol uchaf o achosion fesul ardal.
- Ceir rhwng 1 a 15 o ddigwyddiadau newydd yr wythnos o hyd, yn bennaf mewn cartrefi gofal preswyl, gydag uchafbwynt bychan diweddar o 12 o ddigwyddiadau'n cael eu hadrodd mewn un diwrnod.

Dangosfwrdd Data'r GIG


- Diweddarwyd data lechyd Cyhoeddus Cymru ar 21/07/2020
- Diweddarwyd data ysbytai ar 22/07/2020

Unedau gofal dwys lefel 3


- O blith y cyfanswm o 126 o gleifion mewn unedau gofal dwys lefel 3 yng Nghymru (sydd wedi cynyddu o 122 ers yr adroddiad blaenorol):
 - mae 2 yn gleifion COVID wedi'u cadarnhau (1 ym Mwrdd lechyd Caerdydd a'r Fro ac 1 ym Mwrdd lechyd Betsi Cadwaladr);

- mae 5 yn gleifion yr amheuir bod COVID arnynt (1 ym Mwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr, 1 ym Mwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg a 3 ym Mwrdd Iechyd Bae Abertawe).
- O blith y byrddau iechyd sydd ag unedau gofal dwys lefel 3:
 - mae cyfradd defnydd gwelyau Bwrdd Iechyd Hywel Dda yn 78% (cleifion heb COVID yw pob un);
 - mae cyfradd defnydd gwelyau Bwrdd Iechyd Bae Abertawe yn 59% a Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro yn 51%;
 - mae cyfradd defnydd gwelyau Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr, Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg a Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan o dan 50%.

Daily L3 ICU Confirmed COVID19 Patients



7-day Averages



Ffon Fesur Tebygolrwydd Pennaeth y Proffesiwn Asesu Gwybodaeth (PHIA)

- Os yw'n briodol, bydd y Gell Cyngor Technegol yn mynegi tebygolrwydd neu hyder yn y cyngor a ddarperir gan ddefnyddio ffon fesur tebygolrwydd PHIA i sicrhau cysondeb ar draws gwahanol elfennau'r gyngor a roddir.

